## ATODLEN 5

Rheoliad 8

### Cofnodion

**Gwneud cofnod**

**1.**—(1) Yn unol ag Erthygl 7(1), yr indent cyntaf ac Erthygl 7(4) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 (cadw cofrestr cyfredol) mae unrhyw berson sy'n methu â llenwi cofrestr yn unol â'r paragraff hwn, yn euog o dramgwydd.

(2) Rhaid iddo lenwi'r gofrestr ar yr adegau canlynol—

(a) yn achos symud anifail i ddaliad neu oddi arno, o fewn 36 o oriau ar ôl y symud;

(b) yn achos genedigaeth anifail mewn buches odro, o fewn saith niwrnod ar ôl yr enedigaeth;

(c) yn achos genedigaeth anifail nad yw mewn buches odro, o fewn 30 o ddiwrnodau ar ôl yr enedigaeth;

(ch) yn achos marwolaeth anifail, o fewn 7 niwrnod ar ôl y farwolaeth;

(d) yn achos ailosod tag clust o'r newydd pan fo newid yn Rhif y tag clust, o fewn 36 o oriau ar ôl ei ailosod.

(3) Rhaid i'r gofrestr gynnwys yr wybodaeth yn Erthygl 8 o 911/2004 ac, yn ychwanegol at hynny, manylion pwy yw'r fam (yn achos trosglwyddo embryo, manylion pwy yw'r fam fenthyg ac, os yw'n hysbys, y fam enetig)([1]) (yn achos anifail a anwyd cyn 1 Ebrill 1995 nad oes ganddo dag clust, rhaid cofnodi'r marc adnabod yn hytrach na'r Rhif tag clust).

**Darparu gwybodaeth**

**2.** Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 7(3) (darparu gwybodaeth) yn euog o dramgwydd.

**Cadw cofnodion**

**3.**—(1) At ddibenion Erthygl 7(4) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000, rhaid cadw'r gofrestr am 10 mlynedd yn achos fferm a 3 blynedd mewn unrhyw achos arall, ac yn y ddau achos o ddiwedd y flwyddyn galendr y gwnaed y cofnod diwethaf ynddi; a rhaid cadw unrhyw gofnod a wnaed o dan Orchymyn Anifeiliaid Buchol (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995 am yr un cyfnod.

(2) Mae methu â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn dramgwydd.

(**1**) Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol a fformat addas ar gael yn http//defraweb/animalh/tracing/cattle/passport/records/records-index.htm